

Tasg 2

(Heriol, sbardun 3)

Cyflym!

Rydych chi'n mynd i drafnod y darn rydych chi newydd ei ddarllen, ond cyn hynny, rhaid i chi feddwl am dri chwestiwn agored - neu gwestiwn 'tew' - i'w gofyn i aelodau'r grŵp.

Beth yw cwestiwn agored neu gwestiwn 'tew'?

Cwestiwn lle mae mwy nag un ateb yn bosibl, e.e.

Beth wyt ti'n ei feddwl o ...?

Eglura beth ddigwyddodd ...
Eglura beth fydd yn digwydd ...

Pam, wyt ti'n meddwl, ...?

Beth sy'n dangos bod ...?

Pam mae ...?

Wyt ti'n meddwl bod ...?
Wyt ti'n meddwl ei bod hi'n iawn ...?
Wyt ti'n meddwl y bydd ...

Rho enghreifftiau o ...

Sut rwyd ti'n teimlo am ...?

Dychmyga mai ti yw ...
Sut rwyd ti'n teimlo am ...?

Dychmyga mai ti oedd ...
Sut roeddet ti'n teimlo am ...?

Beth wyt ti'n meddwl fydd yn digwydd ...?

Mae cwestiynau 'tew' yn wych ar gyfer gwaith grŵp, felly cofiwch eu defnyddio nhw bob tro mae angen i chi drafod rhywbeth - mewn unrhyw bwnc!

Ar ôl meddwl am gwestiynau da, trafodwch y darn.

Gofynnwch am farn, am dystiolaeth i gefnogi safbwynt, am esboniad ac ati.
Gofynnwch i'ch partner ddychmygu ac i fynegi teimladau.

Siaradwch! Siaradwch! Siaradwch!